

Ysgol Gynradd Kitchener

Caerdydd

“ Mae'r plant yn cefnogi eu Cyngor â balchder. Fel athrawon ddylen ni fyth anghofio cymaint mae cael llais o'r fath yn ei olygu i bobl ifanc.” Jane Evans

Mae Ysgol Gynradd Kitchener yn ganolog i gymdogaeth amrywiol iawn, a nod ei hathrawon yw creu amgylchedd dysgu sy'n adlewyrchu anghenion cymuned amlddiwylliannol mor fywiog

Mae'r Cyngor Ysgol wedi chwarae rhan allweddol drwy helpu i gefnogi'r ethos hwn, ond yr hyn sy'n gwneud y Cyngor yn arbennig yw'r ffordd y mae hefyd wedi ennyn gwir falchder yn yr ysgol. Mae cynrychiolwyr pob dosbarth ar y Cyngor yn gwisgo bathodyn Cyngor Ysgol – ac mae'n anrhydedd cael ei wisgo – a thrwy'r Cyngor caiff disgyblion eu hannog i fod â balchder ynddyn nhw eu hunain a'u gwreiddiau, ynghyd â'r hunanhyder i fynegi eu teimladau a'u barn.

Mae hon yn neges sy'n gweithio i'r plant. Gyda chefnogaeth yr athrawon, maen nhw wedi cydweithio gydag artist lleol i greu murluniau ar gyfer y buarth chwarae, wedi helpu i adnewyddu'r toiledau ac wedi cael llais yn y gwaith o ailgynllunio'r Neuadd Ginio. Maen nhw hyd yn oed wedi'i ailenwi yn 'Kitchener 'K'afe' ac wedi creu logo newydd.



“Mae wedi rhoi'r hyder i fi sefyll a siarad â phlant eraill ac oedolion.”

Aelod o'r Cyngor

Enw cyswllt: Jane Evans

Ffôn: 029 2038 7505

Ebost: jaevans@cardiff.gov.uk